# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Hysbysir yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadau Ysgolion bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar ôl ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn bwriadu gwneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, (hynny yw, 525 o leoedd ar gyfer dysgwyr 4-11 oed), dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle. Ar hyn o bryd mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr dan gynhaliaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dan y cynnig hwn, byddai Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn symud o'i lleoliad presennol yn Princess Way, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 2LN, i adeilad ysgol newydd ar dir ger Ffordd Cadfan, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr.

Ymgymerodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad o'r ymgynghoriad sy'n nodi crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigiwr a safbwyntiau Estyn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau-cyfredol/ymgynghoriad-ysgol-gymraeg-bro-ogwr/

Rhagwelir y bydd y cynnig yn dod i rym ddechrau tymor yr hydref 2025. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fydd yr awdurdod derbyn.

Y nifer o ddysgwyr yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 343 (4 i 11 oed) yn ogystal â 50 o ddysgwyr llawn amser oedran meithrin ac 8 o ddysgwyr rhan amser oedran meithrin. Capasiti'r ysgol ar hyn o bryd yw 378 (ar gyfer dysgwyr 4 i 11 oed) yn ogystal â 55 o ddysgwyr oedran meithrin. Y capasiti arfaethedig ar ôl rhoi'r cynnig ar waith fydd 525 (ar gyfer dysgwyr 4 i 11 oed), 90 o leoedd cyfwerth â llawn amser ar gyfer dysgwyr oedran meithrin a 8 lle yn y dosbarth arsylwi ac asesu.

Y nifer o ddysgwyr a dderbynnir ar gyfer y grŵp oedran 4 i 5 yn yr ysgol arfaethedig yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf o roi'r cynigion ar waith fydd 75. Bydd gan yr ysgol 90 o leoedd cyfwerth â llawn amser ar gyfer dysgwyr oedran meithrin.

Bydd trefniadau ar gyfer cludiant ysgol yn unol â Pholisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg Pen-y-bont ar Ogwr.
https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy-v2.pdf

Cyn pen 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.

Rhaid mynegi eich gwrthwynebiad yn ysgrifenedig i:

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Dan ofal Uned Gefnogi'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
CF31 4WB

Neu drwy e-bost i: edsu@bridgend.gov.uk

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiad a wneir (sydd heb ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig) cyn i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, ynghyd â'u hymateb wedi hynny, cyn pen y saith diwrnod yn dechrau o ddiwrnod pennu'r cynnig.

Llofnodwyd:



Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Dyddiad: 30 Mehefin 2022

# Nodyn Esboniadol

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i gynyddu'r nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Mae'r cynnig yn golygu y byddai Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn symud i dir oddi ar Ffordd Cadfan i ysgol gynradd fwy. Byddai'r adeilad newydd wedi'i ddylunio ar gyfer 525 o ddysgwyr 4 i 11 oed, 90 o leoedd cyfwerth â llawn amser ar gyfer dysgwyr oedran meithrin a 8 lle yn y dosbarth arsylwi ac asesu. Byddai'r ddarpariaeth newydd yn agor ddechrau tymor yr hydref 2025.

Mae'r cyngor wedi dwyn ymlaen y cynnig hwn i adeiladu ysgol arall ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr er mwyn:

- cynyddu'r nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol;
- darparu adeilad ysgol 21ain Ganrif newydd a fydd yn cefnogi i ddarparu'r cwricwlwm newydd; ac
- yn mynd i'r afael â materion gorlenwi a chyflwr adeiladau.

Byddai adeilad yr ysgol newydd arfaethedig wedi'i ddylunio'n addas i fodloni gofynion i gyflawni cymunedau dysgu cynaliadwy.